



DYLAN THOMAS

BARDD ROC A RÔL - CA2

Teitl y gweithgaredd:	Nadolig Plentyn yng Nghymru
Disgrifiad:	Cymariaethau a throsiadau
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Cysylltiad â'r FfLIRh:	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd * Darllen a deall BI3: • cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol BI4: • archwilio gwybodaeth a syniadau'r tu hwnt i'w profiadau personol BI5: • adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt BI6: • adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt i ddatblygu dealltwriaeth bellach
Testun Dylan Thomas	<i>Nadolig Plentyn yng Nghymru</i> Darn o t15-t19 ' <i>Flynyddoedd ar flynyddoedd ar flynyddoedd yn ôl, pan oeddwn fachgen, pan oedd bleiddiaid yng Nghymru ... ceiliogod-gwynt yn clochdar eu Nadolig ar ein perth ni.</i> '
Offer angenrheidiol:	<ul style="list-style-type: none">• Darn (Brig CA2) neu ddyfyniadau (Gwaelod CA2)
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none">• Esboniwch mai oedolyn sydd yma, yn edrych yn ôl i gofio'r Nadolig pan oedd yn blentyn. Mae'n gwneud hynny o safbwynt plentyn. (Os ydych yn darllen y testun i gyd, pa bethau tebyg a gwahanol y gall y dysgwyr ddod o hyd iddyn nhw rhwng Nadolig Dylan yn y gorffennol, a'u profiadau Nadolig nhw eu hunain, yn y presennol?)• Mae'n defnyddio golygfeydd doniol wedi'u gorliwio wrth edrych yn ôl yn llawn hiraeth.• Mae Dylan yn defnyddio delweddau cryf dros ben i ddisgrifio digwyddiadau a golygfeydd. Mae cymariaethau a throsiadau'n ffordd bwerus o adeiladu darlun o'i fywyd pan oedd yn blentyn.• Adolygwch y gwahaniaeth rhwng cymhariaeth a throsiad. Edrychwch ar rai enghreifftiau.• Hefyd trafodwch bersonoli. Beth yw e? Ydyn ni'n gallu meddwl am rai enghreifftiau?• Gall y dysgwyr farcio'r testun i ddangos enghreifftiau o gymariaethau, trosiadau, personoli a delweddau gan ddefnyddio pensiliau lliw neu uwch-oleuwyr gwahanol eu lliw. (Gallai brig CA2 ddefnyddio'r darn uchod, gallai gwaelod CA2 ddefnyddio'r dyfyniadau mewn parau neu grwpiau bychain)



DYLAN THOMAS

BARDD ROC A RÔL - CA2

Gweithgareddau estyn:	<ul style="list-style-type: none">Gallai'r dysgwyr greu rhestr o drosiadau a chymariaethau tywyddGallai'r dysgwyr greu gêm gymariaethau. Disgrifiwch berson neu gymeriad neu anifail cyfarwydd drwy gyfrwng cymariaethau i'r dysgwyr eraill ddyfalu pwy/beth ydyw. (Dwi'n gyflym/araf/hapus/drist/arw/dyner/ddewr/swil/poeth/oer fel ...)
Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill:	<ul style="list-style-type: none">Gweler uchod